Gwybodaeth am Gladdu Gartref

**Taflen wybodaeth i gleifion**

---

Nod y wybodaeth ganlynol yw rhoi'r manylion sydd eu hangen arnoch ynghylch Claddu Gartref.

Gallwch ofyn i'r ysbyty ryddhau eich babi bach (a elwir weithiau'n ffetws/gweddillion) er mwyn i chi allu ei gladdu yn eich gardd eich hun. Mae hyn yn gyfreithlon; fodd bynnag, mae rheoliadau llym yn eu lle ar gyfer claddu unrhyw fath o feinwe ddynol mewn amgylchedd domestig.

Ar gyfer claddedigaethau y tu allan i fynwent rhaid bodloni'r gofynion canlynol.

- Ni ddylai achosi unrhyw berygl i eraill
- Ni ddylai ymyrryd ag unrhyw hawliau a allai fod gan bobl eraill ar dir.
- Ni ddylai fod unrhyw berygl i gyflenwadau dŵr na chyrsiau dŵr.

Noder; Rhaid claddu meinwe ffetws o leiaf 18 modfedd o dan y wyneb a rhaid cael caniatâd gan berchennog y tir.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English".**